



Bwrdd Cyngtori Benthyc Cymru

Mae Benthyc Cymru, rhwydwaith llyfrgelloedd pethau Cymru, yn recriwtio i'w Fwrdd Cyngtori wrth i ni weithio tuag at wneud benthyc yng Nghymru mor hawdd a normal â phicio allan am dorth o fara. Ers dechrau 2021 rydyn ni wedi gweld twf aruthrol, ac wedi cefnogi 11 o lyfrgelloedd pethau newydd leedled Cymru. Bellach mae angen i ni nodi cyfleoedd a heriau am y 12 mis nesaf a'r tu hwnt ar yr un pryd ag adeiladu model busnes cydnerth a chynaliadwy fel a amlinellir yn ein [dogfen strategaeth](#).

Hefyd mae Benthyc Cymru yn cydnabod gwerth positif amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio camwahaniaethu. Rydyn ni'n croesawu ac yn annog ceisiadau swydd gan bobl o bob cefndir ac yn arbennig o awyddus i gynyddu cynrychiolaeth ar y bwrdd o bobl o gymunedau gwledig a Chymraeg a dosbarth gweithio o bob rhan o Gymru. Croesawn geisiadau gan ymgeiswyr anabl a Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (BAME) yn arbennig, gan fod pobl BAME ac anabl yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ledled Benthyc Cymru.

Hefyd croesawn ymgeiswyr heb unrhyw brofiad blaenorol ar fwrdd ond sy'n teimlo bod ganddyn nhw rywbeth gwerthfawr i'w gynnig, fel actiffaeth, gwirfoddoli neu waith adeiladu cymunedau. Bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi i feithrin sgiliau perthnasol a hyder.

Darllenwch y [Cylch Gwaith](#) am fwy o wybodaeth.

I wneud cais, [lawrlwythwch a chwblhewch yr archwiliad sgiliau](#), gan gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl a'i anfon gyda CV a llythyr cyflwyno (dim mwy nag 1 dudalen) at info@benthyc-cymru.org. Hefyd gallwch chi wneud cais trwy anfon fideo aton ni o ddim mwy na 3 munud yn lle llythyr cyflwyno a CV (anfonwch ddolen Dropbox neu Google Drive drwy e-bost).

Os hoffech chi gael sgwrs cyn gwneud cais, cysylltwch â Becky Harford ar 07446055818 neu becky@benthyc-cymru.org